# Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth hybu'r broses o gaffael iaith newydd neu ychwanegol yng nghyd-destun amrywiaeth o leoliadau gofal plant. Bydd yn eich galluogi i hybu'r broses o weithio gyda phlant pan fydd iaith y cartref yn wahanol i iaith y lleoliad. Mae'r safon yn gofyn i chi nodi eich cyfraniad at drochi iaith, a chyfrannu at amgylchedd dysgu cadarnhaol. Mae hefyd yn ymwneud â chynnwys teuluoedd yng nghynnydd y plentyn, cefnogi asesu a chynllunio, a gweithio gyda phlant drwy weithgareddau i ddatblygu sgiliau dysgu iaith. Yn olaf, mae’n gofyn i chi gyfrannu at y gwaith o fonitro a gwerthuso cynnydd plant o ran dysgu iaith yn ogystal â’r amgylchedd o ran hybu dysgu iaith. Mae'r safon hon yn ymwneud â throchi llwyr mewn iaith newydd ac nid yw wedi'i chynllunio i ymdrin â throchi rhannol lle mae iaith newydd neu ychwanegol yn cael ei haddysgu fel rhan o gwricwlwm.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. hybu'r gweithle fel amgylchedd trochi iaith
2. nodi eich cryfderau a meysydd i'w gwella wrth ddefnyddio’r iaith drochi
3. gwerthuso a datblygu eich defnydd o’r iaith drochi ar lafar
4. gwerthuso a datblygu eich defnydd o’r iaith drochi yn ysgrifenedig
5. defnyddio dulliau cyfathrebu llafar a di-lafar i wneud i blant deimlo’n ddiogel a bod croeso iddynt, gan barchu eu hunaniaeth ddiwylliannol
6. modelu rhyngweithiadau yn yr iaith drochi ag eraill
7. cyfathrebu â phlant yn yr iaith drochi
8. modelu ynganiad clir a chywir o’r iaith drochi
9. dadansoddi a chefnogi camau caffael iaith mewn plant
10. cefnogi plant i symud drwy gamau caffael iaith ar eu cyflymder eu hunain, gan sicrhau bod anghenion plant unigol yn cael eu hystyried
11. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd ac eraill i asesu a chefnogi caffael iaith fel rhan o anghenion holistaidd plant
12. gwahaniaethu rhwng heriau caffael iaith a heriau eraill i blant
13. cefnogi â rheoleiddio emosiynol plant wrth gaffael iaith
14. nodi pryd mae angen cymorth arbenigol i gyfathrebu â theuluoedd a phlant
15. cynnwys teuluoedd ym mhrofiadau dysgu iaith y plant
16. rhoi gwybodaeth i deuluoedd am adnoddau cymorth ychwanegol ar gyfer trochi iaith
17. dangos parch at hunaniaeth ddiwylliannol a dewisiadau iaith plant a theuluoedd
18. defnyddio profiadau a rhyngweithiadau i gefnogi caffael iaith
19. nodi a darparu cyfleoedd i hybu iaith lafar
20. defnyddio caneuon a rhigymau i gefnogi’r defnydd o’r iaith drochi
21. nodi a darparu cyfleoedd i hybu llythrennedd yn unol â cham datblygu plant
22. integreiddio profiadau trochi iaith o fewn y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm a gwerthfawrogi cyfleoedd dysgu digymell
23. annog plant i ddefnyddio'r iaith drochi â phlant eraill ac mewn lleoliadau gwahanol
24. annog a dathlu ymdrechion plant wrth ddefnyddio’r iaith drochi
25. mesur a chofnodi cynnydd plant unigol o ran caffael iaith a diweddaru eu teuluoedd
26. gwerthuso effeithiolrwydd adnoddau a gweithgareddau dysgu iaith

27. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i adolygu a gwella effeithiolrwydd yr amgylchedd trochi iaith
28. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant
29. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. beth yw amgylcheddau iaith drochi
2. sut mae newid o un iaith i drochi mewn iaith arall yn gallu effeithio ar blant
3. dylanwad diwylliant, cefndir ac iaith gartref plant a theuluoedd ar ddysgu iaith
4. pwysigrwydd sicrhau eich bod yn rhugl yn yr iaith drochi
5. pwysigrwydd cywirdeb yn yr iaith drochi ysgrifenedig
6. egwyddorion a thechnegau trochi ieithyddol yng nghyd-destun amgylcheddau dysgu
7. methodolegau iaith drochi a dulliau iaith sy'n cael eu rhannu
8. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi â chyfathrebu effeithiol mewn iaith drochi
9. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y ffordd mae plant yn caffael iaith a sgiliau cyfathrebu
10. y camau y gall plant eu dilyn wrth gaffael iaith newydd a sut mae ymateb i bob cam
11. pwysigrwydd cael disgwyliadau clir ar gyfer plant o ran caffael iaith drochi
12. termau a thechnegau allweddol caffael iaith mewn amgylcheddau trochi
13. sut mae nodi a chefnogi caffael geirfa allweddol a geiriau sy'n codi'n aml
14. sut mae gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd yn y broses o gaffael iaith a'u cefnogi i roi cefnogaeth wrth ddysgu'r iaith yng nghyd-destun y cartref
15. gwerth gweithgareddau grŵp i blant wrth gaffael iaith newydd a sut i'w cefnogi
16. sut mae creu amgylcheddau croesawgar a chyfeillgar ar gyfer dysgu iaith
17. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi'r broses o gaffael iaith
18. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth gaffael iaith
19. gwerth arddangosfeydd, adnoddau, dyfeisiau ac adnoddau digidol mewn amgylcheddau dysgu iaith
20. pwysigrwydd profiadau sy'n cael eu harwain gan blant yn ogystal ag oedolion, a sut i'w defnyddio ar gyfer dysgu iaith drochi
21. y cylch arsylwi, asesu a chynllunio ar gyfer caffael iaith
22. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant
23. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant

24. theorïau sy’n berthnasol i’r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant
25. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu’r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant
26. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu’r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant
27. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu’r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant, a sut i fynd i’r afael â hyn
28. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD359

Hybu'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD359 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Caffael iaith, Trochi, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |